Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

Coleg Nyrsio Brenhinol
Tŷ Maeth
King George V Drive East
Caerdydd
CF14 4XZ

Helen Whyley, RN, MA
Cyfarwyddwr Gweithredol, RCN Cymru

Ffôn 02920 680703
E-bost helen.whyley@rcn.org.uk

Alyson Thomas
Prif Weithredwr
Llais
3ydd Llawr, 33 - 35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd, CF11 9HB

Dydd Mawrth 28 Ionawr 2025

Annwyl Alyson Thomas,

Ddydd Iau 16 Ionawr, rhyddhaodd y Coleg Nyrsio Brenhinol adroddiad dirdynol yn datgelu effaith ddinistriol gofal mewn coridorau ar gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn ysbytai yng Nghymru ac ar draws y DU.

Yn dilyn hyn, ddydd Mawrth 28 Ionawr, cyhoeddodd RCN Cymru adroddiad polisi yn nodi ein hargymhellion ar gyfer camau gweithredu i ddod â gofal mewn coridorau i ben yng Nghymru. Maent yn cynnwys dosbarthu triniaeth mewn cadair sy'n para dros 24 awr yn Ddigwyddiad Byth, yn ogystal ag adolygiad cenedlaethol o gapasiti GIG Cymru ac yna buddsoddiad wedi'i dargedu lle mae ei angen fwyaf.

Mae gofal mewn coridorau—yr arfer o drin cleifion mewn cynteddau, cadeiriau, neu leoliadau amhriodol eraill—wedi dod yn realiti dyddiol i lawer o weithwyr gofal iechyd rheng flaen. Mae cyfleusterau gorlawn, adnoddau annigonol, a galw uchel gan gleifion wedi gorfodi nyrsys a staff eraill i ddarparu gofal mewn amgylcheddau sy'n peryglu diogelwch, urddas ac ansawdd.

Mae gofal mewn coridorau yn digwydd ym mhob rhan o Gymru. Mae'r tystiolaethau

Yn parhau.....

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

isod, gan staff nyrsio, aelodau'r RCN, a chleifion, yn dangos ei effaith ym mhob bwrdd iechyd. Rwy'n siŵr bod Llais yn clywed sylwadau tebyg gan gleifion a staff ledled Cymru.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:

> *"Roedd fy merch, sy'n feichiog, yn dioddef o orgyfogi a dywedwyd wrthi am fynd i'r ysbyty. Roedd hi'n chwydu mewn coridor, heb unrhyw wres yn y coridor. Bu'n rhaid iddi aros ar droli am ddiwrnod a hanner cyn cael ei symud i ward. Yna symudon nhw i swyddfa meddyg, lle nad oedd unrhyw seinyddion y gallai eu defnyddio pe bai angen cymorth arni. Yna cafodd ei symud yn ôl i'r coridor."*

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

> *"Defnyddiodd ysbytai cymuned yn Betsi ystafell fwyta ar gyfer gofal cleifion – nid oes unrhyw ocsigen pibell neu sugnedd yn yr ystafelloedd hyn."*

Cardiff and Vale University Health Board:

> *"Anfonwyd y claf i... [ward] ...tua 10am, eisteddodd ar gadair yn y coridor wrth gorlan y nyrsys tan 4pm pan allem ni ei drosglwyddo i droli yn ein cilfach cleifion allanol. Cafodd wely am 7pm. Roedd mewn poen, yn dioddef dolur rhydd gwaedlyd helaeth...roedd ar gyfer fflecsi sig [sigmoidosgopi hyblyg] y diwrnod hwnnw, sydd angen enema ffosffad fel paratoad. Sut oeddwn i fod i roi enema mewn cadair yn y coridor?"*

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:

> *"Ar ôl dioddef trawiad ar y galon, cefais fy hun mewn adran damweiniau ac achosion brys, lle sydd i fod yn noddfa o ofal a gwellhad ond a wnaeth droi'n gyflym yn braf gwytnwch. Am dri diwrnod hir, eisteddais mewn cadair, ynghlwm i fonitor y galon, wedi fy nghyfyngu i goridor heb unrhyw breifatrwydd na lle priodol. Roedd y diffyg cyfleusterau yn frawychus — dim mynediad at wely, dim ffordd o gael cawod, a fy unig luniaeth oedd brechdan a phaned o de, nid y maeth y byddai rhywun yn ei ddisgwyl ar adeg mor dyngedfennol."*

Yn parhau.....

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

> *“Weithiau rydym ni’n gallu cael troli dros ben o’r ystafell lawdriniaeth. Mae rhai cleifion yn penderfynu cysgu ar lawr yr uned. Pe bai unrhyw un o’r cleifion hyn yn cael trawiad ar y galon, ni fyddem yn gallu cael y troli brys i mewn i’r ystafell. Mae gennym ni gleifion ar droliau mewn ystafelloedd triniaeth hefyd. Nid yw hyn yn gwella, ond yn hytrach yn gwaethygu gan ein bod ni’n gweithio’n brin o staff yn gyson a chyda nifer fawr o asiantaethau. Rydym ni’n gweithio o dan bwysau a straen aruthrol ac mae’n eglur bod problemau difrifol o ran diogelwch cleifion.”*

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys:

> *“Ceir prinder ystafelloedd [mewn gwasanaeth plant yn y bwrdd iechyd] ac rydym ni wir wedi gweld effeithiau toriadau i gyllid. Mae’n rhaid i blant dderbyn gofal mewn mannau cyhoeddus a hyd yn oed yn yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn ystafelloedd cwpwrdd ysgol. Rwy’n teimlo fel pe na bai iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.”*

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe:

> *“Pan gawsom ni ein gweld gan feddyg o’r diwedd, dywedwyd wrthym ni i’w ddilyn trwy sawl coridor, tan yn y pen draw iddo stopio, troi at fy mam a dechrau trafod cyflwr fy mam gyda hi. Ar ôl ychydig funudau, fe wnaeth droi ac edrych at ddrws a dweud, “Os byddaf i angen eich archwilio, a oes ots gennych chi os awn ni i mewn i’r fan yna?” “Wel, toiled i bobl anabl yw hwnna,” atebais. Roeddwn i’n gallu gweld bod y meddyg yn teimlo cywilydd, ac atebodd bod gennym ni’r hawl i wrthod, ond pe maen ni’n gwneud hynny, byddai’n rhaid i ni aros sawl awr arall i giwbicl ddod ar gael. Dewisodd mam gael ei harchwilio yn y toiled.”*

Mae lleisiau cleifion a staff nyrsio yn glir: mae gofal coridor yn anniogel, heb urddas, yn annerbyniol. Mae'n digwydd ar draws Cymru, ac mae bywydau a diogelwch cleifion mewn perygl.

Mae staff nyrsio yn gweithio'n ddiflino ddydd a nos i ddarparu'r gofal o'r safon uchaf i gleifion. Ond mae normaleiddio gofal coridor yn rhwystro eu gallu i wneud hynny'n ddifrifol. Nid yw aelodau RCN Cymru bellach yn fodlon goddef y sefyllfa annerbyniol hon.

Yn parhau.....

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

Roeddwn wrth fy modd yn clywed eich bod yn siarad wrth ein bwrdd crwn y llynedd ac rwy'n gobeithio y byddwch yn ymuno â ni i alw am weithredu ein hargymhellion. Rwyf wedi gofyn i'm swyddfa drefnu cyfarfod gyda chi i drafod sut y gall Llais a RCN Cymru barhau i gydweithio ar y mater hwn.

Yn gywir



HELEN WHYLEY, RN, MA
CYFARWYDDWR GWEITHREDOL, RCN CYMRU

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.